

# Pecyn Dogfennau

## PWYLLGOR CYNLLUNIO

**DYDD IAU, 1 CHWEFROR 2024**

**PRESENNOL** Cynghorydd W.T Evans (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

S.M. Allen	J.M. Charles	J.K. Howell	A.C. Jones
M.J.A. Lewis	B.D.J. Phillips	E. Skinner	R. Sparks
G.B. Thomas			

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

T. Davies	M. Donoghue	A. Leyshon	D.E. Williams
-----------	-------------	------------	---------------

**Hefyd yn bresennol:**

Y Cynghorydd T.A.J. Davies a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch ceisiadau cynllunio PL/00895 a PL/006296

Y Cynghorydd M. Palfreman a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch Cais Cynllunio PL/04244

Mr G. Morgan, Cynlluniwr Trafnidiaeth gydag Atkins Framework (Rhithwir)

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

H. Towns, Uwch Reolwr Datblygu a Gorfodi  
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu  
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)  
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr  
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd  
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**

R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd  
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]  
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd  
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

**[NODER:**

- Am 11.45am cafodd y Pwyllgor egwyl ac ailymgynullodd am 11:55am.
- Am 1:00pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol 9 o Weithdrefn y Cyngor – Hyd y Cyfarfod – ac, oherwydd bod y cyfarfod eisoes wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr, penderfynwyd gohirio ystyried y rheolau sefydlog, yn unol â Rheol 23.1 o Weithdrefn y Cyngor, er mwyn galluogi'r Pwyllgor i gwblhau'r gwaith a oedd yn weddill ar yr agenda.]
- Cafodd y Pwyllgor egwyl am 1:30pm, cyn ailgynnull am 2.20pm.

**Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 yb - 3.25 yp**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd. D. Owen.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd T. Davies	3. PL/05250 – 8 tŷ fforddiadwy newydd ar dir ger 91 Maes yr Haf, Pwll, Llanelli, SA15 4AU	Personol a rhagfarnol – mae gan gleient gysylltiad â'r datblygiad.
Y Cynghorydd T. Davies	3. PL/05187 – Codi preswylfeydd newydd, mynediad i gerbydau, manau agored a seilwaith cysylltiedig arall ar dir Cefncaeau, Llanelli	Personol a rhagfarnol – noddi Canolfan Adar y Gwlyptir

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

### 3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/04244	8 tŷ fforddiadwy newydd ar dir ger 91 Maes yr Haf, Pwll, Llanelli, SA15 4AU
	<p>(NODER: Datganodd y Cynghorydd T. Davies fuddiant yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod tra bo'r Pwyllgor yn trafod yr eitem ac yn pleidleisio yn ei chylch.)</p> <p>Yn dilyn cyflwyniad gan yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymhell cymeradwyo'r cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.</p> <p>Cafwyd sylwadau gan yr aelodau lleol a wrthwynebai'r cais ac a ail-bwysleisiai'r pwyntiau yn adroddiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd, gan gynnwys y pwyntiau isod: Ni chaniatawyd cais i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle:-</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Yr heriau topograffig;</li><li>• Yr effaith niweidiol y byddai'r datblygiad yn ei chael ar drigolion a busnesau lleol;</li><li>• Colli ardal gymunedol werthfawr yn sgil y datblygiad;</li><li>• Cynyddu'r pwysau traffig ar yr A484 a gwaethygu</li></ul>

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

	<p>problemau parcio;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diffyg ymgynghori â phreswylwyr lleol.</li> </ul> <p>Ymatebodd y swyddogion i'r materion a godwyd.</p>
<b>PL/05853</b>	<b>Siop gyfleustra i'r gymdogaeth, gan gynnwys cyfleuster cludfwd poeth gyrru trwodd ar dir gyferbyn â Ffos Las, Culla Road, Trimsaran, SA17 4HD.</b>

**3.2 PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais canlynol er mwyn i'r ymgeisydd allu darparu rhagor o wybodaeth i ymdrin â'r materion sydd heb eu datrys:-**

<b>PL/00895</b>	<b>Preswylfa menter wledig â sied amaethyddol gysylltiedig ar dir yn Derwen Fawr, Crug-y-bar, Llanwrda</b>
	<p>Yn dilyn cyflwyniad gan yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymhell gwrthod y cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.</p> <p>Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol yn cefnogi'r cais a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>· Roedd y datblygiad yn gymedrol ac yn gydnaws â'r dirwedd;</li> <li>· Roedd y cais yn cefnogi anghenion lleol;</li> <li>· Byddai'r datblygiad yn lleihau teithio i'r safle ac yn gwella diogelwch priffyrdd;</li> <li>· Yn ddiweddar, roedd yr ymgeisydd wedi sicrhau tenantiaeth tir arall.</li> </ul> <p>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r pwyntiau a godwyd.</p>

**3.3 PENDERFYNWYD, a hynny ar gais yr aelod lleol, ohirio ystyried y cais canlynol i alluogi rhagor o drafod rhwng swyddogion a'r ymgeisydd.**

<b>PL/06643</b>	<b>Cais am estyniad deulawr ar yr ochr a newidiadau i'r byngalo presennol, ynghyd ag estyniad i'r cwrtil domestig, Golygfa, Cydweli, SA17 5AR.</b>
-----------------	--

**3.4 PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i ymweld â'r safle os ceir caniatâd gan y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn dilyn asesiad risg.**

<b>PL/05187</b>	<b>Codi preswylfeydd newydd, mynediad i gerbydau, manau agored a seilwaith cysylltiedig arall ar dir Cefncaeau, Llanelli.</b>
-----------------	---

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

	<p>(NODER: Datganodd y Cynghorydd T. Davies fuddiant yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod tra bo'r Pwyllgor yn trafod yr eitem ac yn pleidleisio yn ei chylch)</p> <p>Oherwydd ymrwymiad arall, ni allai'r aelod lleol fod yn bresennol yn y cyfarfod ac yn ei habsenoldeb, darllenodd yr Uwchswyddog Rheoli Datblygu ddatganiad ysgrifenedig yn gofyn am ymweliad safle er mwyn ystyried y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>· Yr effaith niweidiol ar y Ganolfan Adar y Gwlyptir leol;</li> <li>· Colli safle ar gyfer adar, madfallod dŵr a llygod pengrwn;</li> <li>· Cyflwyno llygryddion posibl i gyrff dŵr;</li> <li>· Materion traffig a phriffyrdd;</li> <li>· Mwy o lifogydd.</li> </ul> <p>Ymatebodd y swyddogion i'r pwyntiau a godwyd.</p>
--	--

**3.5 PENDERFYNWYD gwrthod y cais canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

<b>PL/06296</b>	<p><b>Storfa bren a llawr caled cysylltiedig (ailgyflwyno Cais Cynllunio PL/05564) ar dir gyferbyn â Gilfach Wen, a elwid gynt yn Penroc, Caio, Llanwrda, SA19 8UH</b></p>
	<p>Yn dilyn cyflwyniad gan yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd yn argymhell gwrthod y cais am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.</p> <p>Cafwyd sylw gan yr Aelod Lleol yn cefnogi'r cais a oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>· Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law gan ymgylgoreion;</li> <li>· Roedd maint y datblygiad yn briodol i wasanaethu anghenion domestig yr ymgeiswyr o ran sychu boncyffion;</li> <li>· Coed ynn heintiedig oedd y coed a dorwyd;</li> </ul> <p>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu i'r pwyntiau a godwyd.</p>

**3.6 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar gwblhau A106 ac amodau, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd i'w wrthod, oherwydd barnwyd bod y cais yn cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:-**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PL/04027	Preswylfa 3/4 ystafell wely Anghenion Lleol ar wahân, gyda 3 lle parcio, ffordd fewnol, gwella'r mynediad presennol i'r cae a gwaith safle cysylltiedig. Byddai'r cynigion hyn yn gofyn am newid defnydd o dir amaethyddol i breswylfa C3 ar dir gyferbyn â Sparrows Nest, Hendy-gwyn ar Daf SA34 OLG
----------	---

#### 4. ADRODDIAD APELIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag apeliadau cynllunio a gyflwynwyd ar 22 Ionawr, 2024.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.**

#### 5. PERFFORMIAD Y GWASANAETH CYNLLUNIO - CHWARTER 3

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio, ar gyfer Chwarter 3 am y cyfnod rhwng Hydref a Rhagfyr, 2023 ac, yn arbennig, yr Is-adran Rheoli Datblygu a Gorfodi. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dangosyddion monitro perfformiad craidd ynghyd â data cymharol ar gyfer chwarteri blaenorol yn 2022/23.

Roedd yr adroddiad yn nodi set o ddangosyddion monitro perfformiad craidd a fyddai'n rhan o fonitro perfformiad y gwasanaethau cynllunio yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys "Dangosyddion Cenedlaethol" a'r rhai a nodwyd gan y Cyngor.

Dywedodd yr Uwch-reolwr Datblygu a Gorfodi wrth y pwyllgor y gallai fod posibilrwydd y byddai rhai ardaloedd yn gweld gostyngiad yn y canrannau targed oherwydd diffyg capasiti adnoddau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

#### 6. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19EG RHAGFYR, 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2023 yn gofnod cywir.**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

CHAIR

DATE

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf